YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

29 Mawrth 22

Annwyl ddysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid,

Mae'r cynnydd mewn achosion positif o COVID ymhlith dysgwyr a staff yn parhau ac felly bydd angen i ni fel ysgol unwaith eto, symud i ddysgu'n rhithiol i flynyddoedd penodol ar ddiwrnodau penodol yr wythnos hon. O ganlyniad bydd angen y blynyddoedd isod **aros adref i weithio** ar y diwrnodau canlynol a bydd gwaith y diwrnod ar gael i ddysgwyr gwblhau ar Google Classroom yn ôl pynciau'r diwrnod hwnnw.;

- **Dydd Mercher 30.03.22: Bl.9 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol**
- **Dydd Iau 31.03.22: Bl.8 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol**
- **Dydd Gwener 01.04.22: Bl.7 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol**

Rydym wedi blaenoriaethu dysgwyr CA4 ac ôl-16 i fod yn yr ysgol bob dydd, oherwydd yr arholiadau allanol mae'r dysgwyr hyn yn sefyll dros y dyddiau/wythnosau nesaf.

Fel y nodwyd eisoes, o ganlyniad i'r absenoldebau hyn, mae staff sy'n bresennol yn amsugno mwy o ddyletswyddau ac felly o bosib bydd hwn yn effeithio ar ein hargaeledd i ymateb i ymholiadau rhieni. Gofynnaf felly i chi fod yn amyneddgar a bydd rhywun yn cysylltu nôl â chi mor gyflym â phosib.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus.
Cofion,

Meurig Jones

Prifathro



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
INVESTORS IN FAMILIES BUDDSODDWYR MEWN TEULUOEDD
LLWYDDIANNUS ARWEINIOL NERTHOL